WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 5 Mawrth 2014 |
| Ein cyf: | HVT/2096/capt |
| Tudalen: | 1 o 3 |

Annwyl Darren

**Ymchwiliad i Gyflog Uwch Reolwyr - Gwybodaeth ychwanegol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Rwyf wedi adolygu'r papurau gwybodaeth ychwanegol a baratowyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus eu hystyried ar 6 Mawrth 2014.

Nid wyf wedi ymchwilio i fanylion y wybodaeth yn Atodiad 1 na'r graffiau yn Atodiad 3. Fodd bynnag, byddwn yn nodi bod Atodiad 1 yn cyfeirio at flynyddoedd archwilio 2009/10 a 2010/11. Hefyd, nid yw'n glir pa flwyddyn (blynyddoedd) y mae'r graffiau cymharol yn Atodiad 3 yn cyfeirio ati (atynt) ac nid yw'r papur ategol yn egluro hynny chwaith.

Gan fod Atodiad 2 yn cynnwys cipluniau o ddatganiadau ariannol Cynghorau Cymru, a chan eu bod yn deillio o ddatganiadau ariannol y cyngor, dylai'r wybodaeth hon fod yr un peth â'r wybodaeth a ddefnyddiwyd yn fy memorandwm a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 6 Chwefror. Fodd bynnag, rwyf wedi cymharu cyflogau'r Prif Weithredwyr ar gyfer 2012/13 fel y'u nodwyd gan CLlLC â'r rhai sydd wedi'u cynnwys o dan Ffigur 8 yn fy memorandwm, a hoffwn wneud y sylwadau canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr<br><br>Tudalen 3 | Y cyflog a nodwyd o dan Ffigur 8 yn fy memorandwm yw cyfanswm cyflog y ddau ddeiliad swydd a ddatgelir yng nghiplun CLlLC. |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Tudalen 4 | Dim ond ffigurau 2011/12 y mae'r ciplun CLlLC yn eu dangos, nid y ffigurau ar gyfer 2012/13 fel yr awgrymir gan deitl Atodiad 2. |
| Cyngor Sir Caerdydd<br><br>Tudalen 4 | Mae ciplun CLlLC yn dangos Cyflog, ffioedd a lwfansau sy'n dod i gyfanswm o £191,664. Mae fy memorandwm yn nodi mai £183,726 yw'r cyflog gan fod fy nhîm archwilio lleol wedi cadarnhau bod gwerth £7,938 o lwfansau ychwanegol wedi'u cynnwys yn y datgeliad o'r datganiadau ariannol. |
| Cyngor Dinas Casnewydd<br><br>Tudalen 15 | Mae ciplun CLlLC yn dangos cyflog o £33,659 gyda nodyn yn dweud i'r Prif Weithredwr ddechrau yn ei swydd ar 1 Ionawr 2013. Er mwyn gallu cymharu, addasodd fy memorandwm y ffigur hwn i roi cyflog blynyddol. |
| Abertawe (Dinas a Sir)<br><br>Tudalen 19 | Nid yw ciplun CLlLC yn dangos rhan o'r datganiadau ariannol sy'n cynnwys cyflog y Prif Weithredwr. |
| Bro Morgannwg<br><br>Tudalen 21 | Y swm o £133,565 a nodir yn fy memorandwm yw cyfanswm cyflog y Prif Weithredwr o £48,810 (tan 31/7/2012) a chyflog y Rheolwr Gyfarwyddwr o £84,755 o 1 Awst, 2012. |
| Cydnabyddiaeth y swyddog canlyniadau | Tra bod y datganiadau ariannol (fel y gwelir yng nghipluniau CLlLC) yn nodi tâl cydnabyddiaeth y swyddog canlyniadau ac yn nodi ei fod wedi'i gynnwys yng nghyflog y Prif Weithredwr, roedd fy memorandwm wedi'i hepgor er mwyn rhoi gwell ffigurau cymharol. Mae hyn yn berthnasol i:<br>• Sir y Fflint;<br>• Sir Fynwy;<br>• Torfaen. |

Gobeithio y bydd hyn yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor wrth iddo ystyried tystiolaeth CLlLC.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**